# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Trefniadau cyhoeddi ac arddangos*

## 6 Hysbysu am sgoriau hylendid bwyd a'u cyhoeddi

(1) Rhaid i awdurdod bwyd hysbysu'r ASB am sgôr hylendid bwyd sefydliad busnes bwyd o fewn y cyfnod perthnasol.

(2) Wrth hysbysu'r ASB rhaid i awdurdod bwyd ddarparu i'r ASB hefyd unrhyw wybodaeth bellach a ragnodir.

(3) Rhaid i'r ASB gyhoeddi'r sgôr hylendid bwyd ac unrhyw wybodaeth arall a ragnodir ar ei gwefan cyn pen 7 o ddiwrnodau ar ôl cael ei hysbysu o dan is-adran (1).

(4) Yn yr adran hon, ystyr "cyfnod perthnasol"—

(a) os nad oes apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd, yw 49 o ddiwrnodau o'r dyddiad y bydd gweithredwr sefydliad busnes bwyd yn cael hysbysiad am y sgôr hylendid bwyd;

(b) os gwneir apêl, yw 28 o ddiwrnodau o ddyddiad penderfynu'r apêl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 6(2)(3) mewn grym ar 28.10.2013 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2617, **ergl. 2(c)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 28/10/2013. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 6.